## GORCHYMYN TRAFFORDD YR M48 (PONT HAFREN, SIR FYNWY) (GWAHARDD CERBYDAU MAWR DROS DRO) 2025

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn sicrhau diogelwch defnyddwyr y ffordd ac i wneud gwaith oherwydd risg strwythurol ar Draffordd yr M48 a Phont Hafren, neu gerllaw iddynt, yn Sir Fynwy.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd sy'n pwyso dros 7.5 tunnell, ac eithrio cerbydau sy'n cael eu defnyddio gan y gwasanaethau brys, at ddibenion gwaith a chynnal a chadw neu a awdurdodir gan swyddog heddlu mewn lifrai, swyddog traffig neu berson penodedig a chan weithredwyr gwasanaethau bysiau neu goetsys, rhag mynd ar Bont Hafren yr M48 a'r ffordd ymuno a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r hysbysiad hwn.

Y llwybr dargyfeirio ar gyfer cerbydau mawr sy'n pwyso dros 7.5 tunnell sy'n bwriadu teithio tua'r dwyrain dros Bont Hafren fydd mynd ar yr M48 tua'r gorllewin o Gyfnewidfa Newhouse i Gyffordd 23a (Magwyr) yr M4 cyn ymadael ac ailymuno â'r M4 tua'r dwyrain a chroesi Pont Tywysog Cymru yr M4.

Y llwybr dargyfeirio ar gyfer cerbydau mawr sy'n pwyso dros 7.5 tunnell sy'n teithio i Gymru fydd mynd ar Bont Tywysog Cymru yr M4. Dylai'r cerbydau hynny sy'n dymuno teithio i Gas-gwent / Dyffryn Gwy ymadael ac ailymuno â'r M4 wrth Gyffordd 23a (Magwyr) cyn ailymuno â'r M48 tua'r dwyrain i Gyfnewidfa Newhouse.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 8 Gorffennaf 2025. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol o 00:01 o'r gloch ar y dyddiad hwnnw ac yn parhau mewn grym am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**P HUISH**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE M48 MOTORWAY (SEVERN BRIDGE, MONMOUTHSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF LARGE VEHICLES) ORDER 2025

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to ensure the safety of road users and to undertake works due to a structural risk on or near the M48 Motorway and Severn Bridge at Monmouthshire.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles with a weight exceeding 7.5 tonnes, other than vehicles being used by the emergency services, for works and maintenance purposes or authorised by a uniformed police officer, traffic officer or appointed person and by bus or coach service operators, from proceeding on the M48 Severn Bridge and entry slip road described in the Schedule to this notice.

The diversion route for large vehicles exceeding 7.5 tonnes intending to travel eastbound across the Severn Bridge will be via the M48 westbound from the Newhouse Interchange to Junction 23a (Magor) of the M4 before exiting and rejoining the eastbound M4 and crossing the M4 Prince of Wales Bridge.

The diversion route for large vehicles exceeding 7.5 tonnes travelling to Wales will be via the M4 Prince of Wales Bridge. Those vehicles wishing to travel to Chepstow / Wye Valley should exit and rejoin the M4 at Junction 23a (Magor) before rejoining the eastbound M48 to the Newhouse Interchange.

The Order comes into force on 8 July 2025. The temporary prohibition is expected to operate from 00:01 hours on that date and to remain in force for a maximum period of 18 months.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**P HUISH**
Transport
Welsh Government

## YR ATODLEN

Y gerbytffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt wrth ymyl trwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 2 hyd at bwynt 47 o fetrau i'r dwyrain o'r uniad mecanyddol ym mhen gorllewinol Pont Hafren.

Y ffordd ymuno tua'r dwyrain o Gylchfan Newhouse wrth Gyffordd 2 hyd at y lle y mae'n uno â phrif gerbytffordd yr M48.

## SCHEDULE

The eastbound carriageway which extends from a point adjacent to the nosing of the of the eastbound exit slip road at Junction 2 to a point 47 metres east of the mechanical joint on the western end of the Severn Bridge.

The eastbound on slip from the Newhouse Roundabout at Junction 2 to the merge with the main M48 carriageway.